29/01/2026

# Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid TrC

Diweddariad Cynnydd Blynyddol 2024/25


TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynnwys

Cynnwys ....... 2
1 Cyflwyniad ....... 3
2 Amcan 1: Sicrhau bod y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o bopeth a wnawn ....... 3
2.1 Ein Dull o Wreiddio ....... 3
2.2 Llywodraethu ....... 3
2.2.1 Diogelwch ac Effeithlonrwydd drwy Gadernid ....... 3
2.2.2 Y Gallu i Addasu fel Sefydliad ....... 4
2.3 Strategaeth ....... 4
2.3.1 Cylch Gwaith Cadernid Hinsawdd yn TrC ....... 4
2.3.2 Prosiectau Mawr TrC ....... 4
3 Amcan 2: Asesu risgiau newid yn yr hinsawdd ar draws holl rwydweithiau a gweithrediadau TrC 5
3.1 Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd ....... 5
3.1.1 Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd sy'n benodol i'r safle ....... 5
3.1.2 Arolygon Gorsafoedd gyda Chydweithwyr Gweithredol ....... 5
3.2 Cofnodi Risg a Chyfathrebu ....... 6
4 Amcan 3: Llunio a gweithredu atebion sy'n lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol ....... 6
4.1 Asesu'r Gallu i Addasu ....... 6
4.2 Cynllunio Llwybrau Addasu ....... 7
4.2.1 Cydweithio â Network Rail Cymru a Gorllewin Lloegr ....... 7
5 Amcan 4: Galluogi adferiad amserol o effeithiau tywydd garw ....... 7
5.1 Effaith Tywydd Eithafol ....... 7
5.1.1 Ein Parodrwydd ar gyfer Tywydd Eithafol a'n Hymateb iddo ....... 7
6 Amcan 4: Galluogi adferiad amserol o effeithiau tywydd garw ....... 8
6.1 Partneriaethau Rhanbarthol a Lleol ....... 8
6.2 Cyfraniadau'r Diwydiant a Dylanwad Strategol ....... 8
7 Crynodeb o'r Prif Ddiweddariadau Gweithredu ....... 9
8 Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26 ....... 13

# 1 Cyflwyniad

Mae ein Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid (CARP), a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023, yn nodi ein cyfeiriad strategol ar gyfer rheoli risgiau a chyfleoedd hinsawdd ar draws rhwydweithiau, gweithrediadau a gwasanaethau trafnidiaeth. Mae'r diweddariad blynyddol hwn yn adolygu cynnydd o ran y 5 amcan strategol rhwng mis Tachwedd 2024 a mis Tachwedd 2025, gan dynnu sylw at y camau a gymerwyd i wreiddio cadernid, asesu risgiau, a rhoi mesurau addasu ar waith.

Mae pob adran yn rhoi manylion am gyflawniadau, allbynnau a'r camau nesaf, ac mae rhannau diweddarach yn crynhoi camau gweithredu â blaenoriaeth ac yn amlinellu cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ymrwymiad TrC i gryfhau'r cadernid hinsawdd a sicrhau parodrwydd gweithredol mewn ymateb i heriau amgylcheddol sy'n esblygu.

# 2 Amcan 1: Sicrhau bod y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd yn rhan annatod o bopeth a wnawn

## 2.1 Ein Dull o Wreiddio

Mae gwreiddio cadernid newid hinsawdd ym mhopeth a wnawn yn gofyn am ddull gweithredu amlochrog. Mae'r fframwaith a ddefnyddir i gefnogi'r dull hwn yn cwmpasu pedair colofn allweddol: Llywodraethu, Strategaeth, Rheoli Risg, a Metrigau a Thargedau. Mae pob colofn yn cefnogi'r amrywiaeth o weithgareddau rydyn ni wedi'u gwneud. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar lywodraethu, a strategaeth ar gyfer ffyrdd o weithio a datblygu prosiectau.

## 2.2 Llywodraethu

Mae ein gwaith o lywodraethu cadernid newid hinsawdd yn TrC yn canolbwyntio ar reoli a chyfleu'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Wrth ei wraidd, mae gwreiddio cadernid hinsawdd mewn busnes fel arfer yn golygu rheoli risgiau hinsawdd ar lefel ymarferol, gyda goruchwyliaeth gan y bwrdd. Mae'r adroddiad hwn yn dangos y cynnydd rydyn ni wedi'i wneud o ran gwreiddio cadernid ar draws TrC.

### 2.2.1 Diogelwch ac Effeithlonrwydd drwy Gadernid

Gweithredu ein rhwydwaith yn ddiogel ac yn effeithlon yw'r prif sbardun ar gyfer lliniaru effeithiau tywydd eithafol ar Linellau Craidd y Cymoedd (CVL) a llwybrau Cymru a'r Gororau. Rydym wedi bod yn ymgysylltu â thimau ehangach i asesu lefelau

presennol yr awydd a'r parodrwydd i fabwysiadu egwyddorion cadernid yn eu ffyrdd o weithio.

### 2.2.2 Y Gallu i Addasu fel Sefydliad

Ym mis Ebrill 2025, fe wnaethom gynnal yr asesiad blynyddol o'n gallu i addasu fel sefydliad. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad mewnol o weithgareddau presennol TrC a chynnydd o ran nodau'r Cynllun. Mae canlyniadau'r asesiad hwn yn dangos bod gennym ddealltwriaeth gref o'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â thywydd eithafol. Gan gynnwys gwreiddio cadernid hinsawdd yn ein gweithrediadau, ein gwasanaethau a'n ffyrdd o weithio. Mae adroddiad Y Gallu i Addasu yn tynnu sylw at ein cryfderau o ran llywodraethu, ymgysylltu â rhanddeiliaid a strategaeth gorfforaethol.

## 2.3 Strategaeth

### 2.3.1 Cylch Gwaith Cadernid Hinsawdd yn TrC

Mae cylch gwaith TrC ar gyfer ymaddasu i'r hinsawdd a chadernid yn rhan o'r tîm Datblygu Cynaliadwy a Newid Hinsawdd (SDCC). Ers y diweddariad diwethaf, mae'r tîm SDCC wedi symud i'r gyfarwyddiaeth Cynllunio a Datblygu Trafnidiaeth (TPD).

Mae gwreiddio cadernid yn ehangach ar draws TrC wedi golygu bod angen arloesi prosesau ac ymyriadau strategol. I gefnogi hyn, fe wnaethom gynnal gweithdy wedi'i hwyluso gan ein Labordy Arloesi i nodi a mapio'r prif risgiau hinsawdd i TrC.

O hyn, fe wnaethom amlinellu'r mesurau lliniaru strategol sydd eu hangen i gynyddu cadernid; i gyd-fynd â fframwaith yr Asesiad Risgiau Newid Hinsawdd (CCRA). Roedd y rhain yn ymdrin â ffyrdd o weithio, risgiau allweddol, cyfleoedd a chamau gweithredu. Roedd y ffocws ar gyflawni'r CARP, lledaenu canfyddiadau CCRA, a chydlynu camau cadernid rhwng rhanddeiliaid.

### 2.3.2 Prosiectau Mawr TrC

Mae gwreiddio camau cadernid hinsawdd wrth ddatblygu prosiectau mawr wedi bod yn agwedd allweddol arall ar ddiogelu ein hasedau, ein gweithrediadau a'n gwasanaethau at y dyfodol. Rydym wedi ymgysylltu â thimau prosiect i gynnwys agweddau datblygu cynaliadwy yn gynnar yn natblygiad y prosiect. Mae hyn yn manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ymyrryd yn gynnar ac integreiddio gofynion allweddol mewn prosiectau. Mae hyn yn cynnwys cofnodi risgiau a chyfleoedd tymor byr, tymor canolig a thymor hir yng nghofrestrau risg prosiectau, i'w defnyddio gan dimau prosiect penodol.

#### 2.3.2.1 Prosiectau Datblygu Trafnidiaeth

Mae'r tîm SDCC wedi cyfrannu at nifer o brosiectau mawr yn y cam datblygu, gan gynnwys Cledrau Croesi Caerdydd a Chyfnewidfa Caerffili. Mae'r ystyriaethau hyn yn

cynnwys gofynion o ran asedau a seilwaith, ynghyd â risgiau penodol i'r hinsawdd y mae angen eu lliniaru ar draws gwahanol gamau o gyflawni a gweithredu.

# 3 Amcan 2: Asesu risgiau newid yn yr hinsawdd ar draws holl rwydweithiau a gweithrediadau TrC

Mae ein dull o reoli risg yn canolbwyntio ar ein fframwaith CCRA, a gyhoeddwyd ym mis Mai 2023. Rydym yn defnyddio hyn fel ffordd o wella ein gallu i nodi risgiau a chyfleoedd sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd; gan sicrhau bod ein harferion gweithredol, ein penderfyniadau corfforaethol, strategol ac ariannol wedi'u strwythuro i ymateb yn effeithiol. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio parodrwydd TrC i dderbyn risg gan y Bwrdd a'r Tîm Arwain Gweithredol.

## 3.1 Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd

### 3.1.1 Asesiadau o Risgiau Newid Hinsawdd sy'n benodol i'r safle

Rydym yn cynnal CCRA sy'n benodol i'r safle ar gyfer ein hasedau, ein llwybrau a'n cyfleusterau allweddol i gyfrif am effeithiau newid yn yr hinsawdd. Rydym yn defnyddio canfyddiadau'r asesiadau risg hyn i roi mesurau lliniaru ar waith, i sicrhau ein bod yn cynnal safon uchel o ddiogelwch a gwasanaeth i'n cwsmeriaid a'n rhanddeiliaid allweddol. Mae gennym darged blynyddol o gwblhau 10 CCRA erbyn mis Ebrill 2026.

Rydym hefyd yn cofnodi effeithiau digwyddiadau tywydd eithafol ar ein rhwydwaith: cwsmeriaid, staff, gweithrediadau ac asedau. Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys stormydd wedi'u henwi, Bert, Darragh ac Éowyn, a thywydd poeth 2022.

### 3.1.2 Arolygon Gorsafoedd gyda Chydweithwyr Gweithredol

Rydyn ni wedi cynnal nifer o arolygon gorsaf ar lwybrau CVL. Mae'r arolygon safle CCRA hyn yn ystyried y risg o amrywiaeth o effeithiau tywydd ar iechyd asedau, diogelwch teithwyr ac ansawdd gwasanaethau. Mae ystyriaethau ychwanegol yn cynnwys diogelwch gweithwyr a theithwyr a mynediad at ddulliau teithio amgen.

Rydyn ni wedi cwrdd â nifer o'n rheolwyr gorsafoedd a chyfleusterau i ddeall risgiau rheoli'r tywydd yn well, gyda'r bwriad o roi mesurau rheoli a chamau cywiro ar waith ar gyfer effeithiau tywydd blaenorol (gweler Amcan 4 am fanylion llawn).

## 3.2 Cofnodi Risg a Chyfathrebu

Mae risgiau a nodwyd hefyd yn cael eu catalogio yn y system Rheolwr Risg Gweithredol (ARM) ar gyfer ymchwiliad pellach. Mae'r rhain yn cysylltu amcanion strategol â gweithgareddau gweithredol, fel ein sgoriau risg adnewyddu asedau a gweithdrefnau digwyddiadau sy'n benodol i'r safle. Mae pob risg strategol wedi neilltuo mesurau rheoli, effeithiau, cyfleoedd, risgiau, canlyniadau, mesurau wrth gefn a rhyngddibyniaethau.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'n cadwyn gyflenwi i fabwysiadu'r egwyddorion yn ein fframwaith CCRA, a chefnogi Amey Infrastructure Wales (AIW) i gynnal CCRA ar gyfer eu gwaith cynnal a chadw ac adnewyddu asedau.

# 4 Amcan 3: Llunio a gweithredu atebion sy'n lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd yn y dyfodol

Rydym yn datblygu llwybrau ymaddasu i'r hinsawdd ar gyfer ein hasedau a'n gwasanaethau allweddol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi'r dull cynllunio llwybrau addasu ar waith fel mesur lliniaru. Byddwn yn mabwysiadu'r fethodoleg cynllunio ar gyfer addasu yn unol â safonau a chanllawiau'r diwydiant, fel BS 8631:2021 - 'Ymaddasu i'r hinsawdd. Defnyddio llwybrau addasu wrth wneud penderfyniadau'.

## 4.1 Asesu'r Gallu i Addasu

Ym mis Gorffennaf 2024, fe wnaethom gomisiynu Cliamte Sense i gynnal asesiad o'r gallu i addasu ar gyfer detholiad o'n gorsafoedd allweddol ar y CVL. Yn benodol, Asesiadau Llwybrau Addasu Cyflym (RAPAs) i ganfod pa mor ymarferol yw dulliau mwy hyblyg ac ailadroddol o ymaddasu i'r hinsawdd ar gyfer ein llwybrau, ein gwasanaethau a'n gweithrediadau allweddol.

Mae'r asesiad hwn yn nodi'r prif beryglon hinsawdd ar gyfer nifer o orsafoedd CVL yn y tymor canolig a'r tymor hir. Mae hyn yn cynnwys amrywiaeth o ragolygon hinsawdd a thywydd sy'n deillio o senarios allyriadau cymedrol a difrifol, gyda senarios cynhesu atmosfferig cyfatebol i ddilyn (Adroddiad llawn yma).

## 4.2 Cynllunio Llwybrau Addasu

### 4.2.1 Cydweithio â Network Rail Cymru a Gorllewin Lloegr

Mae TrC wedi gweithio'n agos gyda Network Rail i ddatblygu strategaethau ymaddasu a chadernid ar gyfer rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr. Yn 2025, fe wnaethom gyfrannu at nifer o weithdai ymaddasu i'r hinsawdd a oedd yn rhoi sylw i lwybrau fel Llinell y Gororau, Rheilffordd Calon Cymru, Gorllewin Cymru a Phrif Reilffordd De Cymru. Ym mis Tachwedd 2025, fe wnaethom gyd-gyflwyno gweithdy a oedd yn canolbwyntio ar CVL a llwybrau eraill Cymru a'r Gororau, gan gynnwys Cymoedd De Cymru, Bro Morgannwg, Abertawe a Phen-y-bont ar Ogwr.

Roedd y gweithdai hyn yn asesu risgiau hinsawdd a strategaethau cadernid a ddatblygwyd ar y cyd ar gyfer y 100 mlynedd nesaf, gan ystyried peryglon fel llifogydd, gwres a stormydd. Bydd y penderfyniadau a wneir yn llywio'r gwaith o gynllunio busnes a rheoli asedau, gyda chamau cadernid yn cael eu categoreiddio yn ôl cyd-destun lleol (er enghraifft, gwrthsefyll, adfer yn gyflym, ailafael mewn pethau).

Ochr yn ochr â hyn, mae TrC yn datblygu ei strategaeth WRCCA, wedi'i chefnogi gan fetrigau a thargedau mesuradwy. Bydd y mentrau hyn yn gwreiddio cadernid yng ngweithrediadau TrC ac yn dylanwadu ar gynllunio tymor hir, gan sicrhau parodrwydd a llai o darfu ar draws ein rhwydwaith.

# 5 Amcan 4: Galluogi adferiad amserol o effeithiau tywydd garw

## 5.1 Effaith Tywydd Eithafol

Yn 2024-25, fe wnaeth stormydd Ashley, Bert, Darragh ac Éowyn i gyd effeithio ar ein gallu i redeg gwasanaethau rheilffyrdd a bysiau yn effeithiol. Fodd bynnag, mae gwersi wedi cael eu dysgu o'r stormydd hyn, gyda gwybodaeth wedi'i chasglu o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys yr effaith a achosir gan y digwyddiadau hyn (difrod ac aflonyddwch).

### 5.1.1 Ein Parodrwydd ar gyfer Tywydd Eithafol a'n Hymateb iddo

Ein camau nesaf yn dilyn hyn yw cynnal CCRA llawn ar gyfer safleoedd yr effeithir arnynt a gweithio gyda'n timau cyfleusterau i gyd-ddatblygu cynlluniau wrth gefn ar gyfer safleoedd.  Mae'r mesurau rheoli cychwynnol a'r camau ataliol yn y dyfodol yn cynnwys meini prawf archwilio ar gyfer depos a gorsafoedd - mae hyn yn cysylltu â'n strategaeth WRCCA, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd (yn unol â'r testun o dan Amcan 1).

Yn dilyn ein gwaith yn 2023/24, eleni (2024/25) rydym wedi bod yn gweithio gydag ymgynghorwyr allanol ac Amey Infrastructure Wales i ddiwygio a diweddaru'r

Cynllun Tywydd Garw cyffredinol ar gyfer rhwydwaith CVL. Mae'r ddogfen hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, yn amodol ar adolygiad pellach cyn ei chyhoeddi yn 2026.

# 6 Amcan 4: Galluogi adferiad amserol o effeithiau tywydd garw

## 6.1 Partneriaethau Rhanbarthol a Lleol

Rydym wedi gweithio'n agos gyda Chyd-bwyllgorau Corfforedig (CJC) i wreiddio ymaddasu i'r hinsawdd mewn Cynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol ar gyfer Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ac wedi cyfrannu at Fwrdd Argyfwng Hinsawdd Caerdydd, gan gefnogi asesiadau risg rhanbarthol a thargedau lleihau carbon.

Mae TrC hefyd yn cydweithio â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ledled Cymru, gan gynnwys Bro Morgannwg, Cwm Taf Morgannwg a Chaerdydd, gan rannu data a gwybodaeth o Asesiadau Risgiau Newid Hinsawdd (CCRA). Mae'r partneriaethau hyn yn canolbwyntio ar liniaru effeithiau'r hinsawdd ar iechyd, seilwaith a darparu gwasanaethau, gan hyrwyddo cynllunio ataliol a rhagfynegol ar yr un pryd.

## 6.2 Cyfraniadau'r Diwydiant a Dylanwad Strategol

Y tu hwnt i bartneriaethau rhanbarthol, mae TrC wedi cyfrannu at fentrau cenedlaethol a mentrau ar lefel diwydiant. Mae hyn yn cynnwys cyfrannu at Asesiad Risg Pwyllgor Newid Hinsawdd y DU (CCRA4), cymryd rhan yn Fforwm Addasu Gweithredwyr Seilwaith, a chefnogi astudiaethau cadernid ar gyfer Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru.

Rydym hefyd wedi gweithio gyda'r Bwrdd Safonau Diogelwch Rheilffyrdd (RSSB) i lunio canllawiau ar gyfer strategaethau Cadernid Tywydd ac Ymaddasu i'r Hinsawdd, gan gysoni ein strategaeth WRCCA arfaethedig â safonau'r diwydiant. Mae'r cydweithrediadau hyn yn sicrhau bod TrC yn parhau i fod ar flaen y gad o ran cynllunio camau ymaddasu i'r hinsawdd, gan ddylanwadu ar bolisi ac ymarfer ledled Cymru a'r sector trafnidiaeth ehangach.

# 7 Crynodeb o'r Prif Ddiweddariadau Gweithredu

Yn ein CARP, rydym wedi amlinellu ein Cynllun Gweithredu ar gyfer cadernid hinsawdd. Pwrpas yr adran hon yw darparu diweddariadau allweddol ar y camau gweithredu a nodir yn y cynllun sydd wedi cael eu cwblhau drwy gydol 2024/25. Mae ein dealltwriaeth o'r adnoddau sydd eu hangen i gwblhau'r camau hyn yn gwella'n barhaus wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo, felly mae'r dyddiadau cwblhau targed wedi cael eu diwygio i adlewyrchu'r cynnydd cyfredol.

Tabl 1: Crynodeb o'r Prif Gamau Gweithredu a Diweddariadau

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Targed | Dyddiad Cwblhau Gwirioneddol | Diweddariadau |
|---|---|---|---|
| Sefydlu Grŵp Llywio Newid Hinsawdd cyffredinol (CCSG) TrC a Gweithgor Ymaddasu i'r Hinsawdd (CCAWG) sy'n canolbwyntio ar CVL | 2022 | 2022 | Mae CCAWG TrC sy'n canolbwyntio ar CVL wedi bod yn gweithredu ers mis Tachwedd 2022 gyda thelerau wedi'u diweddaru yn 2025 i gryfhau parodrwydd ar gyfer digwyddiadau ac adolygiad cymheiriaid o fesurau lliniaru risg hinsawdd.<br><br>Mae CCSG TrC, sy'n weithredol ers 2023, yn rhoi sicrwydd ar risgiau hinsawdd ac mae'n diwygio ei gylch gwaith i fynd i'r afael â heriau pontio sy'n dod i'r amlwg. |
| Gwreiddio safon addasu i newid yn yr hinsawdd - ISO 14090:2019 | 2025 | Parhaus | Rydym yn ystyried mabwysiadu ISO 14090:2019 i ffurfioli'r gwaith o gynllunio ymaddasu i'r hinsawdd ar draws prosiectau mawr, parhad busnes, a gweithrediadau. Mae hyn yn cynnwys integreiddio'n gynnar wrth gyflawni prosiectau (gweler 1.3.2 a 1.3.4), rheoli gorsafoedd, a sgorio risg adnewyddu asedau. Ein nod yw atgyfnerthu polisïau a strategaethau presennol gyda'r egwyddorion addasu hyn. |

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Targed | Dyddiad Cwblhau Gwirioneddol | Diweddariadau |
|---|---|---|---|
| Datblygu cynlluniau rheoli ac ymateb ar gyfer digwyddiadau tywydd eithafol ac achosion o rywogaethau goresgynnol/plâu a chlefydau sy'n dod i'r amlwg | 2026 | Parhaus | Mae Cynllun Rheoli Tywydd Garw (AWMP) ar gyfer CVL yn cael ei adolygu ar hyn o bryd gyda chyfnod cyhoeddi targed o fis Ionawr 2026 (gweler **Amcan 4** am ragor o fanylion). Bydd hyn yn cynnwys amrywiaeth o weithdrefnau ar gyfer llwybrau ac asedau TrC.<br>Mae Amey Infrastructure Wales wedi datblygu Cynllun Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol ar gyfer CVL. Mae hyn yn cynnwys agwedd CCRA ategol i liniaru'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhywogaethau goresgynnol yn cael eu hysgogi gan wynt a glaw. |
| Hwyluso'r gwaith o gydlynu Gweithgor Ymaddasu i'r Hinsawdd (CCAWG) traws-ddisgyblaeth ar gyfer Perchnogion Seilwaith yng Nghymru er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu dulliau rheoli ar gyfer methiannau cronnus | 2024 | Wedi'i ohirio | Mae'r cam hwn wedi'i ohirio am y tro. Yn unol â'r **diweddariadau yn Amcan 5 (5.3)**, rydym wrthi'n cydweithio ag amrywiol sefydliadau allanol gan gynnwys Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Fforwm Addasu Gweithredwyr Seilwaith, ac ymrwymiadau ad-hoc eraill gan gynnwys astudiaeth cadernid Comisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru. |
| Datblygu fframwaith a dogfen ganllawiau ar ragolygon yr hinsawdd i gefnogi'r gwaith o asesu'r risg hinsawdd | 2023 | 2023 | Fe wnaethom gyhoeddi ein Fframwaith CCRA ym mis Hydref 2023 - gan ddarparu dull safonol ar gyfer asesu risg newid yn yr hinsawdd. Rydyn ni'n ystyried diweddaru i adlewyrchu ein rhagolygon presennol a symleiddio'r broses i annog mabwysiadu ehangach ar draws TrC; ar gyfer timau mewnol a'n cadwyn gyflenwi. |
| Cynhyrchu asesiadau effaith sy'n gysylltiedig â'r tywydd ar gyfer CVL, gan ganolbwyntio ar y canlynol: Llifogydd, tirlithriadau, gwres, mellt, codiad yn lefel y môr, gwynt, oerni difrifol, gwres a niwl | 2024 | Parhaus | Rydym yn gweithio i ddeall risgiau ar draws y system a nodwyd drwy asesiadau risgiau newid hinsawdd. Yn unol ag **Amcan 4**, rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'n profiadau o ddigwyddiadau tywydd i ddatblygu strategaethau ymateb i ddigwyddiadau. |

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Targed | Dyddiad Cwblhau Gwirioneddol | Diweddariadau |
|---|---|---|---|
| Ymgorffori'r asesiadau o risgiau newid hinsawdd angenrheidiol o fewn holl brosiectau mawr TrC (fel Metro Gogledd Cymru) a pholisïau presennol | 2024 | Parhaus | Rydym wedi cynllunio a darparu hyfforddiant asesiadau risgiau newid hinsawdd ar draws TrC i alluogi'r cam gweithredu hwn. Rydym yn gweithio'n agos gyda thimau mewnol i wreiddio'r gofyniad yng Nghylch Bywyd Cynllun Gwaith TrC. |
| Ymgymryd ag asesiad cynhwysfawr o'r risg hinsawdd ar draws rhwydwaith CVL, gan gynnwys gorsafoedd a depos | 2024 | Parhaus | Wrthi'n cwblhau CCRA ar draws rhwydwaith CVL. Targed o 10 CCRA yn y flwyddyn ariannol hon, yn unol â'n Cynllun Busnes ar gyfer 2025-26. Amcan 2 i gael mwy o fanylion). |
| Datblygu Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid ar gyfer rhwydwaith CVL, gan gynnwys draenio a chloddwaith | 2024 | Parhaus | Bydd y cam gweithredu hwn yn mynd rhagddo yn Ch4 2025/26 ar ôl cwblhau'r CCRA. Bydd y cynllun yn cynnwys cynllun cyflawni ymarferol ar gyfer paratoadau tywydd tymhorol, rhaglen adnewyddu asedau, a gweithgareddau cynnal a chadw allweddol yng nghyfleusterau TrC (gorsafoedd a depos). Gweler Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn i Ddod am ragor o fanylion) |
| Datblygu Cynllun Rheoli Llystyfiant (VMP) | 2024 | 2025 | Rydyn ni wedi datblygu strategaeth bioamrywiaeth ar gyfer CVL i wella cadernid ecolegol. Mae'r VMP cyntaf, a gefnogir gan CCRA, yn canolbwyntio ar reoli llystyfiant ar hyd llwybrau ac asedau i leihau risgiau hinsawdd fel llifogydd, tanau gwyllt, a rhwystrau ar y cledrau sy'n cael eu chwythu gan wynt. |

| Cam Gweithredu | Dyddiad Cwblhau Targed | Dyddiad Cwblhau Gwirioneddol | Diweddariadau |
|---|---|---|---|
| Datblygu llwybrau ymaddasu i'r hinsawdd (a gefnogir gan BS 8631: Ymaddasu i'r hinsawdd - Defnyddio llwybrau addasu ar gyfer gwneud penderfyniadau) ar gyfer CVL | 2024 | 2024 | Fe wnaethom gomisiynu Climate Sense i ddatblygu llwybrau addasu cyflym ar gyfer nifer o leoliadau CVL ar draws CVL (gweler **Amcan 3** am ragor o fanylion). Ein camau nesaf yw llunio llwybrau addasu llawn ar gyfer CVL; gan gynnwys defnyddioldeb, rheoli perfformiad, gweithrediadau a rheoli asedau. |
| Ymchwilio i gynlluniau Atebion ar Sail Natur (NBS) a datblygu canllawiau gweithredu | 2024 | Parhaus | Rydyn ni'n gweithio gyda'n hecolegwyr i fapio cyfleoedd a chyd-fanteision ar gyfer darparu atebion ar sail natur i reoli'r perygl o lifogydd, creu lleoedd a gwella bioamrywiaeth (gweler **Blaenoriaethau ar gyfer y Flwyddyn i Ddod** am ragor o fanylion). |

```

# 8 Blaenoriaethau ar gyfer 2025/26

Tabl 2: Blaenoriaethau ar gyfer 2025-26

Mae'r tabl isod yn rhestru'r gweithgareddau rydyn ni wedi'u blaenoriaethu i gefnogi'r amcanion yn ein CARP ac i gynyddu ein dealltwriaeth o sut bydd newid hinsawdd yn effeithio arnom ni yng Nghymru.

| Blaenoriaeth | Cam gweithredu ategol | Mantais Busnes |
|---|---|---|
| 1. Datblygu Cynllun Ymaddasu i'r Hinsawdd a Chadernid ar gyfer rhwydwaith CVL | Bydd hyn yn cael ei lywio gan y mesurau rheoli a'r mesurau lliniaru risg yn y CCRA. Bydd paratoi ar gyfer tywydd tymhorol, cynnal a chadw asedau a chyfleusterau, a manylebau technegol ar gyfer ymyriadau asedau yn cael eu cynnwys. | Drwy sefydlu'r cynllun ymaddasu a chadernid fel trefn flynyddol, gallwn wella perfformiad asedau a'u parodrwydd gweithredol i reoli effeithiau tywydd garw drwy gydol y flwyddyn. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i ystyried unrhyw fylchau y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw drwy gynllunio llwybrau addasu ar draws meysydd sefydliadol. |
| 2. Ymgymryd ag asesiad cynhwysfawr o'r risg hinsawdd ar draws rhwydwaith CVL, gan gynnwys gorsafoedd a depos | Byddwn yn parhau i gynnal asesiadau risg ar draws ein rhwydwaith i ddeall risgiau a chyfleoedd sy'n deillio o newid yn yr hinsawdd. Yn seiliedig ar ein gwybodaeth am asedau, llwybrau a gwasanaethau agored i niwed. | Byddwn mewn sefyllfa well i gyflawni nodau ein cynllun busnes blynyddol, gyda mesurau lliniaru priodol ar waith i gynnal diogelwch a safon gwasanaeth ein rhwydwaith. |
| 3. Datblygu cynlluniau rheoli ac ymateb ar gyfer tywydd eithafol (cynllunio wrth gefn) | Nodi trefniadau ffurfiol ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau ac adfer ar gyfer digwyddiadau tywydd penodol a mathau o asedau/cyfleusterau. Bydd hyn yn cael ei gefnogi gan ein strategaeth cadernid tywydd ac ymaddasu i'r hinsawdd, a Chynllun Tywydd Garw Amey Infrastructure Wales. | Llai o darfu o ran teithio, effeithiau ariannol a difrod i asedau yn ystod/ar ôl tywydd gwael. Dylai hyn hefyd wella diogelwch a phrofiad defnyddwyr i'n gweithwyr a'n cwsmeriaid. |
| 4. Diweddaru Dogfen CARP | Diweddaru ein dogfen CARP i adlewyrchu'r cynnydd presennol a'r wybodaeth ddiweddaraf: data, metrigau a safonau ar gyfer addasu. | Agwedd newydd a chyfleu ein camau nesaf yn ehangach ar gyfer ymaddasu a chadernid yn TrC. |
```